

Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd

Cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, yn raddol

Ym mis Medi 2022, dechreuodd y broses o gyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd ledled Cymru, gan gychwyn gyda disgyblion y dosbarth Derbyn. Mae'r polisi'n rhan o Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru; mae'n golygu y bydd cynnig prydau ysgol am ddim yn cael ei ymestyn i bob disgybl ysgol gynradd dros y ddwy flynedd nesaf.

Yn dilyn cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd i ddisgyblion oedran y Derbyn, Blynnyddoedd 1-4, a disgyblion cymwys o ran oedran yn y Meithrin, yn Rhondda Cynon Taf, bydd y cam nesaf yn dechrau o 8 Ebrill 2024, lle bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys pob disgybl ym Mlwyddyn 5 a 6 a disgyblion cymwys yn y Meithrin.

Cwestiynau Cyffredin – Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd

C: Oes angen i mi wneud cais am Brydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd pan ddaw fy mhentyn yn gymwys?

A: Does dim angen i rieni wneud cais am Brydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd, ond dylai'r rheiny a fyddai wedi gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim yn flaenorol wneud hynny o hyd.

C: Roedd fy mhentyn yn arfer cael Prydau Ysgol am Ddim, ond nawr mae'n cael Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, pam mae angen i mi lenwi ffurflen gais o hyd?

A: Mae'r cais am Brydau Ysgol am Ddim yn gysylltiedig â rhaglenni eraill gan gynnwys gwisg ysgol. Os na wnewch chi gais, fydd eich plentyn ddim yn cael y buddion cysylltiedig. Gwnewch gais yma:-

[Prydau Ysgol am Ddim - Gwneud cais am brydau ysgol am ddim | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(rctcbc.gov.uk\)](https://www.rctcbc.gov.uk)

C: Os yw fy mhlentyn yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd ac yn mynd ar drip ysgol, a fydd yn dal i gael pryd o fwyd?

A: Bydd. Bydd pecyn bwyd yn cael ei ddarparu ar gyfer y diwrnod hwnnw.

C: Os yw fy mhlentyn yn sâl a ddim yn mynd i'r ysgol, a fyddaf i'n cael taliad yn lle'r bwyd?

A: Na fyddwch. Does dim ad-daliad ar gyfer disgybl sydd ddim yn yr ysgol i dderbyn ei Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

C: Dydy fy mhlentyn ddim yn cael ei addysg mewn Sefydliad Addysgol Gwladol, ond yn hytrach mewn lleoliad amgen. Ydy fy mhlentyn yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd?

A: Nac ydy. Mae amodau grant Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, Llywodraeth Cymru, yn nodi mai dim ond ar gyfer disgyblion mewn lleoliad gwladol y mae'r ddarpariaeth ar gael.

C: Dydw i ddim yn siŵr a fydd fy mhlentyn yn bwyta'r bwyd sy'n cael ei ddarparu bob dydd; a oes modd i'm mhlentyn ddod â phecyn bwyd gydag ef/hi o hyd?

A: Bydden ni'n annog yn gryf bod pob disgybl cymwys yn manteisio ar ei Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd. Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth eang o fwyd i geisio sicrhau bod rhywbeth at ddant pawb. Serch hynny, pe bai'n well gyda chi ddarparu pecyn bwyd, mae croeso i chi wneud hynny.

C: Mae ar fy mhlentyn angen Diet Wedi'i Ragnodi'n Feddygol – a fydd modd iddo gael pryd bwyd yn yr ysgol o hyd?

Gofyniad Dietegol wedi'i Ragnodi'n Feddygol

Oes gan eich plentyn oed ysgol cynradd alergedd neu anoddefiad bwyd, neu gyflwr meddygol a fydd yn golygu y bydd angen Diet Wedi'i Ragnodi'n Feddygol arno?

Os felly, mae modd rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Arlwyo a gwneud cais ar-lein o ran diet wedi'i ragnodi'n feddygol.

Os oes rhaid i chi gofrestru gofynion dietegol eich plentyn sydd wedi'u rhagnodi'n feddygol, yna ewch ati i lenwi'r Ffurflen isod. Bydd rhaid i chi lanlwytho'r dystiolaeth feddygol briodol, wedi'i chyflwyno gan ymarferydd meddygol neu ddietygydd cofrestredig, sy'n cadarnhau gofynion dietegol y plentyn.

Fe allwch chi gyrchu'r ffurflen gais yma ynghylch diet wedi'i ragnodi'n feddygol:

www.rctcbc.gov.uk/DietRhagnodiMeddygol

C: Mae gan fy mhentyn ddietydd arbennig yn ei le yn barod, ond hyd yn hyn rydw i wedi talu am ei fwyd. Unwaith y bydd fy mhentyn yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, a fydd yn rhaid i mi wneud cais arall o ran y diet?

A: Os nad oes newid wedi bod i'r anghenion dietegol, does dim angen gwneud cais eto o ran Diet Wedi'i Ragnodi'n Feddygol. Os oes unrhyw beth wedi newid, bydd angen i ni wneud y trefniadau angenrheidiol cyn i'ch plentyn gael pryd o fwyd. Os oes gyda chi unrhyw amheuaeth ynghylch pa wybodaeth ddietyddol sydd gyda ni ar hyn o bryd, anfonwch e-bost aton ni: gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk.

Pe hoffech eglurhad pellach ar unrhyw un o'r atebion uchod, neu, os oes gyda chi gwestiwn nad ydyn ni wedi'i ateb eto, e-bostiwch ni gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk neu ffoniwch 01443 281141.